complantcymru.org.uk

# Effaith ein gwaith: Gwanwyn 2024

## Croeso!

Ers mis Ionawr, mae dros 3500 o blant a phobl ifanc wedi dweud wrthyn ni sut maen nhw'n teimlo am y materion sy'n dylanwadu ar eu bywydau trwy ein pecyn trafod newydd misol, Materion Misol. Darllenwch ymlaen drwy'r diweddariad chwarterol yma i weld beth ddwedson nhw am ginio ysgol, blaenoriaethau Prif Weinidog newydd Cymru, a'r bwriad i ddiweddaru'r calendr ysgol. Mae gennym ni grynodeb cenedlaethol newydd ar fater iechyd meddwl plant gan ein tîm polisi, ac rydyn ni'n craffu'n fanwl ar y cynnydd mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud o ran y newidiadau rydw i wedi galw amdanynt ar draws sawl agwedd ar fywydau plant. Rydyn ni wedi dal i glywed pryderon uniongyrchol am fêpio, ac mae enw a dull gweithredu newydd sbon ar gyfer ein gwasanaeth Cynghori ar Hawliau Plant... darllenwch ymlaen!






## 1 Yma i bob plentyn

**Mae ein tîm ymgysylltu yn gwneud lleisiau plant yn ganolog i'n gwaith, ac yn clywed safbwyntiau a phrofiadau o bob cwr o Gymru.** Trwy Mater Y Mis, ein pecyn trafod newydd i ysgolion, mae miloedd o blant wedi dweud wrthyn ni am y materion canlynol:

# Ciniawau Ysgol




- Dim ond 19% o'r plant a'r bobl ifanc fu'n cymryd rhan yn ein harolwg ddywedodd eu bod yn llawn ar ôl eu pryd o fwyd.
- Dywedodd bron hanner (44%) eu bod nhw'n cael eu gwrthod os oedden nhw'n gofyn am ragor o fwyd.
- Dywedodd 24% o blant eu bod nhw ddim bob amser yn gallu cael llysiau os ydyn nhw eisiau.
- Dywedodd 22% eu bod nhw ddim bob amser yn gallu cael ffrwythau os ydyn nhw eisiau.
- Atebodd 490 o blant a phobl ifanc rhwng 7 ac 18 oed yr arolwg yn unigol. Bu 1250 o blant eraill yn cymryd rhan mewn grwpiau, gydag athrawon a gweithwyr ieuenctid yn cyflwyno crynodeb o'u barn. Roedd y cyflwyniadau hyn yn cefnogi'r safbwyntiau a rannwyd yn uniongyrchol gan blant.

Rydyn ni wedi anfon yr wybodaeth at Lywodraeth Cymru gan alw arnynt i roi blaenoriaeth i'w hadolygiad o'r canllawiau ar brydau ysgol, ac i barhau i wrando ar farn plant a phobl ifanc ar y pwnc hollbwysig hwn

O ganlyniad i'n gwaith mae lleisiau plant ar y pwnc yma wedi cael sylw yn y newyddion dros yr wythnos diwethaf, gan gynnwys yn y darn yma ar BBC Cymru Fyw

## Prif Weinidog newydd i Gymru – beth fyddai pobl ifanc yn gwneud tasen nhw yn y rôl honno?



- Soniwyd yn gyson am gost eitemau hanfodol pob dydd, costau tai, a chyflogau isel – mae arian yn dal yn destun pryder mawr i bobl ifanc.
- Roedd llawer yn sôn am yr amgylchedd lleol. Roedd llawer am weld mwy o finiau i helpu i gadw eu hardal leol yn lanach.
- Fe glywson ni alwadau am drafnidiaeth gyhoeddus well a rhatach.
- Roedd yr amserau aros am ofal iechyd yn bryder cyffredin.
- Roedd llawer o syniadau cysylltiedig ag addysg, gan gynnwys ystod ehangach o wersi a mwy o weithgareddau.
- O ran gweithgareddau y tu allan i'r ysgol, roedd pobl ifanc eisiau gallu gwneud mwy yn ddi-dâl.

Y safbwyntiau hyn oedd sylfaen llythyr a anfonwyd gan y Comisiynydd at Brif Weinidog newydd Cymru wedi iddo gael ei benodi, gan ychwanegu'r rhain at y dystiolaeth oedd eisoes yn bodoli ynghylch blaenoriaethau a materion allweddol plant.

Mae postiad blog diweddaraf y Comisiynydd yn dadansoddi ac yn myfyrio ymhellach ar beth ddywedodd pobl ifanc wrthyn ni y bydden nhw'n ei wneud tasen nhw wrth y llyw.


## Bwriad i newid y calendr ysgol



- Wrth feddwl am y gwyliau haf fel y maen nhw, roedden nhw'n hoffi treulio amser gyda ffrindiau a theulu, cael amser i baratoi ar gyfer y flwyddyn nesaf ac i ymlacio, heb boeni am yr ysgol, a chael amser i ganolbwyntio ar hobïau a diddordebau.
- Dywedodd nifer sylweddol nad oedd elfennau negyddol i wyliau haf hir, ond ymhlith y pethau doedden nhw ddim yn eu hoffi roedd gorfod dod nôl i arfer â rwtîn ar ddiwedd y gwyliau, diflasu, a gweld eisiau eu ffrindiau.

Roedd barn plant a phobl ifanc yn ganolog i'n hymateb ymgynghori ninnau i gynnig Llywodraeth Cymru. Fe wnaethon ni hefyd annog pobl ifanc i rannu eu barn yn uniongyrchol gyda'r Llywodraeth.

## Syniadau i helpu chi yn eich gwaith â phobl ifanc



**Eisiau syniadau ar weithgareddau i wneud gyda phlant a phobl ifanc?**
**Mae ein tîm yn postio fideos yn aml arlein i'ch helpu. Dyma gweithgaredd bach syml i ddefnyddio i ddechrau sesiwn - gyd sydd angen yw papur a siswrn.**

# 2 Heriwr

**Mae ein tîm polisi yn herio ac yn craffu ar waith y llywodraeth o ran y materion allweddol sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc.**



## Iechyd Meddwl – tudalen bolisi i weithwyr proffesiynol

> Mae'r gweithlu presennol yn cael trafferth ymdopi â'r galw. Mae plant a phobl ifanc yn rhy aml yn aros yn rhy hir i gael y gefnogaeth mae arnyn nhw ei hangen.


Ar sail ein hymchwil ein hunain a gwaith pobl eraill, rydyn ni'n gwybod mai iechyd meddwl a llesiant yw un o'r materion pennaf mae plant yn pryderu yn ei gylch. Mae hyn hefyd yn wir am rieni a gofalwyr, a gweithwyr proffesiynol sy'n cefnogi plant a phobl ifanc.

Mae ein tudalen bolisi newydd ar iechyd meddwl yn cyflwyno'r heriau, a rhai o'r materion penodol sy'n ymwneud â chefnogi iechyd meddwl a llesiant plant a phobl ifanc. Rydyn ni'n gobeithio y bydd yn adnodd defnyddiol i unrhyw un sydd â diddordeb yn y mater eithriadol bwysig hwn, gan gynnwys y rhai sy'n bwriadu ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar eu strategaeth ddrafft ynghylch iechyd meddwl a llesiant.

## Cynnydd Llywodraeth Cymru o ran ein hargymhellion

Bob blwyddyn trwy ein hadroddiad blynyddol rydyn ni'n cyflwyno argymhellion i Lywodraeth Cymru ar faterion polisi allweddol rydyn ni eisiau iddyn nhw roi sylw iddyn nhw yn ystod y 12 mis nesa. Yn ystod y flwyddyn rydyn ni'n cadw golwg ar yr argymhellion hynny trwy gyfarfod â Gweinidogion, prif swyddogion a rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys plant a phobl ifanc.

Byddwn ni'n cyhoeddi dogfen cyn hir sy'n dadansoddi cynnydd Llywodraeth Cymru o ran pob un o'r argymhellion hynny. Cofrestrwch i'n cylchlythyr misol i dderbyn copi uniongyrchol.



| Topic | Recommendations | Current RAG rating | Comments |
|---|---|---|---|
| Poverty | The Welsh Government must create a child poverty action plan alongside a clear monitoring framework with measurable, time-bound targets, and a robust accountability mechanism to enable sensitive input from children and young people. This must be published within the 2023/24 Senedd term. | | This recommendation has essentially … The revised child poverty strategy wa… not include an action plan. Welsh Government has committed … framework and we will continue to… |
| Climate emergency | To address both child poverty and the climate emergency, the child poverty action plan should include a commitment to a free public transport pilot for children and young people under 18 within this Senedd term. | | This recommendation has been r… |
| Mental health and wellbeing | The Welsh Government should ensure that the needs of children and young people are clearly reflected and addressed in their new Mental Health Strategy, and that the recommendations from the Senedd Ieuenctid's Young Minds matter report are reflected in this strategy. | | Welsh Government consulted … developing the new draft men… consultation on the draft visio… online survey. However, of th… demonstrate how many resp… The government also consul… with the National Youth Sta… draft strategy in summer 2… autumn 2023 with the Nat… Parliament. |

# Goleuo'r Gwir


**Rydyn ni'n gweithio'n galed i fwrw goleuni ar brofiadau bywyd go iawn plant a phobl ifanc a'u defnyddio i ddylanwadu ar newid.**

## Fêpio

- Mae pobl ifanc yn cerdded allan o'r ffug arholiadau oherwydd eu bod nhw'n methu ymdopi am y cyfnod yna o amser' (heb fêpio)
- 'Mae plant yn gaeth i fêpio wrth ddod o'r ysgolion cynradd'
- 'Mae plant yn arswydo wrth glywed faint o sigarets sy'n cyfateb i beth maen nhw'n smygu'
- 'Mae'r holl fideos addysg etc o America, does dim byd gallwn ni ddefnyddio o bersbectif y Deyrnas Unedig.'

Mae'r rhain i gyd yn ddyfyniadau o sesiwn wrando bu ein tîm yn ei chynnal gyda grŵp o bobl ifanc rhwng 12 ac 18 oed, a'r oedolion oedd yn eu cefnogi. Roedd yr wybodaeth o'r sesiwn hon yn adlewyrchu ein pryderon parhaus ynghylch atyniad a hygyrchedd fêpiau, a'r diffyg gwybodaeth addysgiadol sydd ar gael i helpu i wrthweithio defnydd ohonyn nhw.

Rydyn ni wedi rhannu canlyniadau'r sesiwn wrando hon yn uniongyrchol gydag Ysgrifenyddion Cabinet Iechyd ac Addysg yn Llywodraeth Cymru.



Yn gynharach y mis yma, cyhoeddodd Iechyd Cyhoeddus Cymru adroddiad newydd yn galw am roi blaenoriaeth i gefnogaeth yn hytrach na chosb wrth helpu pobl ifanc sydd am roi'r gorau i fêpio, gan gynnwys argymell bod plant yn gallu cyrchu Therapïau Amnewid Nicotîn os ydyn nhw'n gaeth i fêpio. Rydyn ni'n cefnogi'r dull gweithredu hwn yn llwyr, ac yn annog Llywodraeth Cymru i wneud popeth o fewn eu gallu i sicrhau bod argymhellion Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cael eu symud ymlaen. Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn gwneud newidiadau a fydd yn arwain at gosb lymach i'r rhai sy'n gwerthu cynnyrch fêpio i bobl ifanc o dan 18 oed, a'r rhai sy'n rhoi samplau o gynnyrch fêpio am ddim. Maen nhw'n cynllunio newidiadau i'r gyfraith i sicrhau bod blas a chynnwys cynnyrch fêpio yn cael ei gyfyngu. Maen nhw hefyd am wneud cynnyrch fêpio yn llai deniadol trwy gyfyngu ar yr opsiynau pecynnu a chyfyngu ar ble mae modd arddangos cynnyrch fêpio mewn siopau.

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r newidiadau hyn hefyd. Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn newid y gyfraith yma i wahardd fêpiau untro oherwydd yr effaith ar iechyd a'r amgylchedd.

## 4 Arwr hawliau



**Mae ein tîm Cyngor yn helpu plant a phobl ifanc yng Nghymru i gael mynediad i'w hawliau dynol.**

**O hyn allan, bydd ein gwasanaeth Ymchwiliadau a Chyngor gynt yn cael enw newydd, sef 'Tîm Cyngor a Chymorth ar Hawliau Plant'.**

**Dyma ein Comisiynydd Rocio yn rhannu ei gweledigaeth o ran y newid enw:**

I mi, ers i mi gychwyn yn rôl y Comisiynydd Plant, y peth pwysicaf am y swydd yw'r hyn mae'n ei wneud i blant a phobl ifanc, a sut gallan nhw elwa'n uniongyrchol o hynny. Er bod holl swyddogaethau fy swyddfa yn bwysig, ac yn cynnwys gwrando ar blant a phobl ifanc ac ymgysylltu â nhw, a dylanwadu ar y llywodraeth a'i herio, mae yna rywbeth sylfaenol uniongyrchol ac unigryw am ein gwasanaeth gwaith achosion, sy'n cynnig llais ffurfiol i blant a phobl ifanc a dull uniongyrchol o ddadlau dros eu hawliau a'u sicrhau, os nad ydyn nhw'n eu derbyn.

Mae'r gwasanaeth hwn, a'i dîm o swyddogion medrus ymroddedig, eisoes yn helpu dros 600 o blant unigol bob blwyddyn, ac mae'n ddwyieithog, yn ddiduedd ac yn ddi-dâl. Rydyn ni'n cynghori ac yn cynorthwyo ar ystod o bynciau, gan gynnwys llawer sy'n ymwneud â materion Addysgol ac ymwneud â'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Ond rwy'n argyhoeddedig y gallai mwy o blant a phobl ifanc elwa o hyn, ac ar draws ystod ehangach o bynciau, petaen nhw'n gwybod mwy am y gwasanaeth a'r hyn mae'n ei gynnig. Dyna oedd y sbardun wnaeth i mi archwilio sut gallen ni addasu'r gwasanaeth, ac rydyn ni wedi gwneud hynny trwy sgyrsiau â phlant a phobl ifanc, yn ogystal â rhanddeiliaid, yn ystod y misoedd diwethaf.



O ganlyniad, bydd ein Tîm newydd Cyngor a Chymorth ar Hawliau Plant yn cynnig yr un gwasanaeth proffesiynol o ran gwaith achosion, ond rydyn ni'n gobeithio bydd yr enw a'r naws yn golygu ei fod yn haws troi ato. Byddwn ni'n dal i fedru cynnal ymchwiliadau pellach pan fyddwn ni'n barnu bod hynny'n briodol, ond y pwyslais yw cynorthwyo neu helpu plant a phobl ifanc - 'rydyn ni yma i helpu' yw'r neges rydyn ni eisiau i chi gofio! Helpwch ni i roi'r gair ar led

**Gallwch chi gysylltu â'r tîm Cyngor drwy ffonio 0808 801 1000 (ddydd Llun i ddydd Gwener 9-5pm) neu e-bostio cyngor@complantcymru.org.uk**

# Dros y chwarter diwethaf, mae ein tîm Cyngor wedi:




Cefnogi plant mewn 21 o’r 22 awdurdod lleol yng Nghymru



Cefnogi 233 o blant a phobl ifanc, gan gynnwys 135 o achosion newydd



Delio gydag achosion addysg yn cynnwys gwaharddiadau, bwlio, trafnidiaeth a lleoliadau, ac Anghenion Dysgu Ychwanegol



Delio gydag achosion Gwasanaethau Cymdeithasol yn cynnwys Diogelu ac Amddiffyn Plant; Eiriolaeth, Cwynion a Datgelu Camarfer

# Diolch am ddarllen!
# Byddwn ni'n cyhoeddi ein papur chwarterol nesaf yn yr haf.

**Yn y cyfamser, cofrestrwch i dderbyn ein cylchlythyr misol.**

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales


post@childcomwales.org.uk
01792 765600

Children's Commissioner for Wales
Llewellyn House
Harbourside Business Park
Harbourside Road
Port Talbot
SA13 1SB